

PUGH, HUGH (1803 - 1868), ysgolfeistr a gweinidog gyda'r Annibynwyr



Enw: Hugh Pugh
Dyddiad geni: 1803
Dyddiad marw: 1868
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr a gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Richard Griffith Owen

Ganwyd ym Mai 1803 yn Nhywyn, Meirionnydd. Ymunasai ei dad â'r fyddin a bu'n dal swydd ynddi yn amser y rhyfel yn Sbaen. Gydag un John Jones, Pen-y-parc, ysgolfeistr nodedig, yr addysgwyd ef nes bod yn 13 oed, pryd yr aeth i Lundain yn glerc mewn swyddfa cyfreithiwr, ac yno manteisiodd ar bob cyfle i'w ddiwyllio'i hun. Oherwydd afiechyd gorfu iddo ddychwelyd oddi yno i Dywyn. Yn 1823 aeth i gadw ysgol i Llanfihangel-y-pennant. Dechreuodd bregethu tua'r un adeg ac yn 1824 symudodd i ofalu am ysgol yn Llwyngwrl i'w gwasnaethu eglwysi y cylch; yn 1826 daeth i ardal Bethel ger y Bala a oedd yn rhan o faes **Michael Jones**. Yng Ngorffennaf 1827 urddwyd ef yn weinidog yn Llandrillo, gan barhau yn ysgolfeistr. Yn y cyfnod hwn daeth i'r amlwg fel gweinidog, llenor, a diwygiwr pybyr. Yn ystod ei weinidogaeth adeiladwyd capelau Llandrillo, Rhydywernen, Llandderfel, a Soar (Godre Caereini). Pregethai deirgwaith y Sul a cherdded rhyw 20 milltir, heb sôn am ei waith yn ystod yr wythnos. Yn 1833 sefydlodd gymdeithas 'Gwŷr ieuainc Penllyn ac Edeyrnion' er hyfforddi ieuencid y cylch yn egwyddorion Ymneilltuaeth a Rhyddfrydiaeth, a chyhoeddodd *Catecism yr Ymneillduwr* gan roi'r pwyslais yn bennaf ar bwnc cyswllt yr Eglwys a'r wladwriaeth. Cyn hyn ychydig o sôn a fuasai am y mater yng Nghymru nac yn Lloegr. Erllid ef yn dost oherwydd ei ddaliadau, a phasiwyd penderfyniad mewn cymdeithasfa yn annog pobl i ochelyd y rhai a lefarai yn erbyn 'yr awdurdodau' a sefydliadau y wlad, gan gyfeirio'n ddiannau at Hugh Pugh. Ni syflodd oddi ar ei lwybr a chydabyddid ef yn un o brif arweinwyr Rhyddfrydiaeth yn y Gogledd. Ysgrifennai erthyglau yn gyson i'r *Dysgedydd*. Yn y cyfnod hwn hefyd y cyhoeddodd *Drych y Cymunwr* ar gyfer cymunwyr ieuainc, a *Hawl a chymhwysder dyn i farnu drosto'i hun*. Yn 1837 symudodd i Fostyn ac yno drachefn bu yr un mor ymroddgar, a chafodd wŷr o gyffelyb anianawd yn gymdogion, sef ei ragflaenydd '**Gwilym Hiraethog**' a symudasai i Ddinbych, a '**Scorpion**' yn Nhrelawnyd ('Newmarket'). Ym Mostyn y cychwynnodd *Dyddiadur yr Annibynwyr*. Bregus fu ei iechyd yn ei flynyddoedd olaf a gwnaed dwy dysteb iddo, y naill ym Mostyn yn 1851 a'r llall yn Llandrillo yn 1867. Bu farw 23 Rhagfyr 1868 a chladdwyd ef ym mynwent Seion, ger Holywell. Ni chyfrifid ef yn bregethwr dawnus, ond cydnabyddid ef ar bob llaw yn ŵr o athrylith ac arweinydd diofn ar faterion crefyddol a gwladol. Fel llenor yr oedd yn feistr ar arddull nodedig o gain.

Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen, (1890 - 1973)

Ffynonellau

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (AberdŶr 1867-70)*, ii, 442-4

Rees a Roberts, *Cofiant am y diweddar Barch. Hugh Pugh, Mostyn*

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, iv, 229-33

R. T. Jenkins, *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, Cyfrol 1, 1789-1843* (Caerdydd 1933), 25, 97-8, 104

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746796

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Arddull APA



Owen, R. G., (1953). PUGH, HUGH (1803 - 1868), ysgolfeistr a gweinidog gyda'r Annibynwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PUGH-HUG-1803>



Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION

